*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod hybrid y CABINET yn cael ei gynnal ar'**
**Dydd Llun, 13eg Rhagfyr, 2021 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Sarah Daniel - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 07385 086 169)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau bod cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 10)**

**3. RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod Blwyddyn 2021-22 y Cyngor.

**(Tudalennau 11 - 54)**

**4. CYNIGION AR GYFER CYNLLUN ADFYWIO PEN-RHYS**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu sy'n nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i archwilio opsiynau ar gyfer cynllun adfywio Ystâd Pen-rhys a'r ardal gyfagos ac i gytuno ar fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mewn partneriaeth â chwmni Trivallis a Sefydliad y Tywysog.

**(Tudalennau 55 - 66)**

**5. DIWEDDARIAD CYNNYDD - ARDAL CYFLEOEDD STRATEGOL 'LLANILID'**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu sy'n rhoi diweddariad cynnydd a manylion datblygiadau pellach mewn perthynas â'r cynlluniau a phrosiectau o fewn Ardal Cyfleoedd Strategol 'Llanilid' i Aelodau.

**(Tudalennau 67 - 80)**

**6. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNLLUNIO LLEOEDD YSGOL YN NE'R FWRDEISTREF SIROL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y pwysau ar leoedd ysgol yn ne'r Fwrdeistref Sirol a thrafod goblygiadau cynllunio ac ariannol yn y dyfodol.

**(Tudalennau 81 - 88)**

**7. RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF - CYNIGION I WELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD CYFRWNG SAESNEG YN ARDAL GLYN-COCH, TONYSGUBORIAU A MAESYBRYN**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n ceisio cymeradwyaeth Aelodau i ddechrau'r ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol mewn perthynas â'r cynnig i gyfuno Ysgol Gynradd y Cefn ac Ysgol Gynradd Craig yr Hesg, a gofyn am ganiatâd i gyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol ar gyfer tri Model Buddsoddi Cydfuddiannol (Prosiectau MIM) i Lywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 89 - 144)**

**8. ADRODDIAD YMGYNGHORI STATUDOL - CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG ARFAETHEDIG**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhannu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) arfaethedig ag Aelodau yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad statudol a'r gwaith cyn y cam craffu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Craffu ar faterion Plant a Phobl Ifanc a Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

**(Tudalennau 145 - 458)**

**9. DEILLIANNAU'R YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN STRATEGOL YR ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT AR GYFER 2021-2024 (DRAFFT)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n darparu manylion deilliannau'r ymgynghoriad, gan gynnwys manylion y gwaith cyn y cam craffu a gynhaliwyd i gynorthwyo'r Cabinet mewn perthynas â thrafod Cynllun Strategol Drafft diwygiedig yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

**(Tudalennau 459 - 558)**

**10. ADOLYGIAD O DDARPARIAETH DOSBARTHIADAU CYNNAL DYSGU I DDISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL SYLWEDDOL.**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi cyfle i Aelodau drafod y cynnig i greu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu (LSC) cyfrwng Cymraeg prif ffrwd ychwanegol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Ysgol Garth Olwg.

**(Tudalennau 559 - 582)**

**11. Y NEWYDDION DIWEDDARAF - EISTEDDFOD GENEDLAETHOL RHCT 2024 - YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi diweddariad i'r Aelodau am y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar y cyd â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol wrth baratoi ar gyfer Eisteddfod 2024 sy'n cael ei chynnal yn Rhondda Cynon Taf, yn enwedig mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned.

**(Tudalennau 583 - 590)**

**12. FFRAMWAITH CYFLOGADWYEDD RHANBARTHOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau Cymuned sy'n gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r egwyddor o ddull cyflogadwyedd lleol wedi'i gydlynu ar lefel rhanbarthol, ar ôl i gyllid Ewropeaidd ddod i ben.

**(Tudalennau 591 -**

**686)**

**13. DEILLIANNAU'R YMGYNGHORIAD TEITHIO LLESOL: Y CAMAU NESAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhannu deilliannau'r ymgynghoriad teithio llesol statudol a gynhaliwyd a manylion cam nesaf y broses ymgynghori mewn perthynas â theithio llesol, sef cyflwyno Map Rhwydwaith Teithio Llesol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

**(Tudalennau 687 - 774)**

**14. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a

Gwasanaethau'r Gymuned
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Paul Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Neil Griffiths, Head Of Financial Services - Community & Children's Services